**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF LA 1590 12

**YSGOLION UWCHRADD**
**CATHOLIG YNG NGHYMRU**

08 Mai 2012

Annwyl Bennaeth

Gwelais gopi o'r llythyr gan Archesgob San Steffan a Southwark a gafodd, fel y deallaf, ei anfon at bob ysgol uwchradd Gatholig yng Nghymru gydag e-bost ynghlwm â'r llythyr.

Mae'r llythyr yn mynegi barn yr Eglwys Gatholig o briodas, tra bo'r e-bost sydd ynghlwm yn gofyn ichi ystyried gofyn i'ch disgyblion ystyried llofnodi'r ddeiseb fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan. Mae'n drueni nad oedd yr ohebiaeth gychwynnol yn crybwyll mai dim ond pobl dros 16 oed ddylai lofnodi'r ddeiseb, er rwy'n gweld bod y ddeiseb ei hun yn egluro hyn. Rwy'n falch bod Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig wedi mynd i'r afael â hyn bellach.

Er nad yw'r ddeiseb ei hun yn ymwneud yn uniongyrchol â phwnc sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol, mae yn fy marn i yn gysylltiedig â materion gwleidyddol yn gyffredinol, gan bod y ddeiseb yn ceisio perswadio pobl i lobïo Llywodraeth San Steffan i'w rhwystro rhag newid y ddeddf.

Y rheswm yr wyf yn ysgrifennu atoch yw i'ch atgoffa o'ch rhwymedigaethau o dan adran 406 a 407 Deddf Addysg 1996. Mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid a chyrff llywodraethu atal unrhyw weithgareddau gwleidyddol pleidiol gan unrhyw ddisgybl cofrestredig sy'n llai na 12 oed, ac ni ddylent ganiatáu hyrwyddo safbwyntiau o'r fath mewn unrhyw bwnc a ddysgir. Pan fo materion gwleidyddol yn cael eu cyflwyno i unrhyw ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol, mae'n ofynnol yn ôl adran 407 i ddisgyblion gael cynnig y farn i'r gwrthwyneb er mwyn sicrhau bod y pwnc yn cael ei gyflwyno'n gytbwys.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Rwy’n siŵr y byddwch yn sicrhau, os bydd eich disgyblion yn ymwybodol o’r ohebiaeth hon, y byddant hefyd yn ymwybodol o’r farn i’r gwrthwyneb, er mwyn cyflwyno safbwynt gytbwys iddynt.

Yn gywir

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills